

Best Conversion/ Change of Use / Local Builder

Bethlehem Chapel, Lawson Road, Colwyn Bay

Trosiad/Newid Defnydd Gorau/ Adeiladwr Lleol

Capel Bethlehem, Lawson Road, Bae Colwyn

K & C Building Contractors Ltd



On behalf of Pennaf Housing, the scheme involved the sympathetic refurbishment of Bethlehem chapel which dates back to 1897 and is of significant interest to the local historic group. The Chapel is located in an area of town which is undergoing extensive refurbishment and development, the re-development of this building is a welcome sight to the local people. The building was converted into 3 three bedrooomed apartments, each with a garden and car parking space. The scheme initially involved the demolition of an extension to the chapel on the side of the main building together with the removal of asbestos.

Within the chapel they installed a new ground floor together with a new intermediate floor to create two storeys whilst still maintaining and integrating into the scheme the original chapel features. One of the main features of the building which you can still see is the original trusses; these were cleaned, treated and brought back to their former glory. External Windows and doors were replaced and the coloured leaded lights were refurbished. This developer carries out many projects in the local area and they have an established and good working relationship with the local building control team. The site manager for the conversion was efficient at requesting inspections and always took the time to show the inspector around the building answering questions and assisting the progress of the development.

Ar ran Tai Pennaf, roedd y cynllun yn cynnwys ailwampio capel Bethlehem, sy'n dyddio'n ôl i 1897, ac sydd o ddiddordeb mawr i'r grŵp hanesyddol lleol, gan gadw mor agos i'r gwreiddiol â phosibl. Lleolir y Capel mewn ardal o'r dref sy'n cael ei hailwampio a'i datblygu'n helaeth. Mae ail-ddatblygu'r adeilad hwn yn cael ei groesawu gan y bobl lleol. Cafodd yr adeilad ei drawsnewid yn 3 fflat tair llofft, pob un gyda gardd a lle parcio. Roedd y cynllun i ddechrau yn rhan o brosiect dymchwel estyniad i'r capel ar ochr y prif adeilad ynghyd â chael gwared ar asbestos.

O fewn y capel, gwnaethant osod llawr gwaelod newydd ynghyd â llawr canolradd newydd er mwyn creu dau lawr, tra'n parhau i gynnal ac integreiddio nodweddion y capel gwreiddiol i mewn i'r cynllun. Un o brif nodweddion yr adeilad, y gallwch eu gweld o hyd, yw'r trawstiau gwreiddiol; cafodd y rhain eu glanhau, eu trin a'u dychwelyd i'w hen ogoniant. Cafodd y ffenestri a'r drysau allanol eu disodli a chafodd y ffenestri lliw plwm eu hadnewyddu. Mae'r datblygwr hwn yn cyflawni llawer o brosiectau yn yr ardal leol ac mae ganddynt berthynas waith dda, sefydledig gyda'r tîm rheoli adeiladau lleol. Roedd rheolwr y safle yn effeithlon am ofyn am archwiliadau a bob amser yn cymryd yr amser i ddangos yr adeilad i'r arolygydd gan ateb cwestiynau a chynorthwyo gyda chynnydd y datblygiad.

